## Gofyn am gael eich rhyddhau eto ar brawf

Os ydych chi wedi cael eich anfon yn ôl i'r carchar ac yn credu y dylech gael eich rhyddhau ar brawf unwaith eto, gallwch ofyn i'r Bwrdd Parôl. Gelwir hyn yn 'gyflwyno sylwadau'.

Gallwch siarad â'r Bwrdd Parôl eich hun, neu ofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu gynghorydd cyfreithiol wneud hynny.

Rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos o gael gwybod pam eich bod yn cael eich galw'n ôl i'r carchar.

# Sut y trefnir Cyfnod Prawf

Bydd eich rheolwr troseddwyr yn gweithio i un o ddau sefydliad – i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu i Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio'n agos.

Pan fyddwch yn cael eich dedfrydu i orchymyn prawf, bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn adolygu'ch achos ac yn penderfynu pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i'ch goruchwylio chi. Byddwch yn cael gwybod i ba sefydliad y dylech adrodd.

Os bydd eich ymddygiad yn newid, gallech ddechrau gweld rheolwr troseddwyr o Gwmni Adsefydlu Cymunedol, cyn cael eich cyfeirio at un arall o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Byddwch yn cael gwybod os bydd hyn yn digwydd.

# Cwynion

Os oes gennych gŵyn am y gwasanaethau prawf, siaradwch â'ch rheolwr troseddwyr, a fydd yn ceisio eich helpu. Os na fydd hyn yn gweithio, mae modd i chi gwyno drwy ysgrifennu at y Dirprwy Gyfarwyddwr yn eich rhanbarth Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, neu Brif Weithredwr eich Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

Manylion cyswllt y Dirprwy Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr

Os na fydd modd i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol ddatrys cwyn, gallwch apelio i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf. Bydd y cam apelio terfynol drwy eich AS lleol, a fydd yn gallu gofyn i'r Ombwdsmon Seneddol edrych ar y ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin.

NPS01 - (05.14)

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

# Beth yw Cyfnod Prawf?



NPS01

# Beth yw Cyfnod Prawf?

Mae cyfnod prawf yn golygu eich bod yn bwrw eich dedfryd, ond nad ydych chi yn y carchar.

Gallech chi fod ar brawf oherwydd:

- eich bod yn bwrw dedfryd gymunedol
- eich bod wedi cael eich rhyddhau o'r carchar ar drwydded neu ar barôl

Pan fyddwch chi ar brawf, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- gwaith di-dâl, sy'n cael ei alw'n 'Gwneud Iawn â'r Gymuned'
- cwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant
- cael triniaeth ar gyfer problemau, er enghraifft gyda chyffuriau neu alcohol
- cael cyfarfodydd rheolaidd â 'rheolwr troseddwyr' neu weithiwr prawf arall

## Cyfarfodydd gyda'ch rheolwr troseddwyr

Pan fyddwch chi ar brawf, mae'n bosib y byddwch chi'n cael cyfarfodydd gyda'ch rheolwr troseddwyr. Bydd hyn yn digwydd yn eich swyddfa brawf leol fel rheol.

Yn eich cyfarfod cyntaf, bydd eich rheolwr troseddwyr yn esbonio:

- rheolau eich cyfnod prawf
- dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd yn y dyfodol
- unrhyw apwyntiadau y mae'n rhaid i chi gadw atynt, fel cyrsiau hyfforddi neu driniaeth
- beth fydd yn digwydd os na fyddwch chi'n gwneud yr hyn y gofynnir i chi ei wneud

Bydd eich rheolwr troseddwyr yn gofyn i chi ddarllen 'cynllun dedfrydu' a chytuno arno. Bydd hyn yn dweud wrthych chi pa reolau y mae'n rhaid i chi lynu wrthynt yn ystod eich cyfnod prawf, a beth y mae'n rhaid i chi ei wneud.

## Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei ddweud wrth eich rheolwr troseddwyr

Rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr troseddwyr:

- os ydych chi'n bwriadu newid eich cyfeiriad neu'ch enw
- os na fyddwch chi'n gallu dod i unrhyw gyfarfod rydych chi wedi'i drefnu ag ef
- os ydych chi'n cael problemau o ran glynu wrth reolau eich cyfnod prawf

Os byddwch chi'n colli cyfarfod a drefnwyd â'ch rheolwr troseddwyr, dylech gysylltu ag ef i roi gwybod iddo pam. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi ddangos prawf, fel llythyr gan feddyg neu'ch cyflogwr.

Caniateir i chi aildrefnu cyfarfodydd neu apwyntiadau er mwyn mynd i ddigwyddiadau crefyddol neu ddigwyddiadau pwysig eraill, os byddwch chi'n rhoi gwybod i'ch rheolwr troseddwyr ymlaen llaw.

## Os byddwch chi'n torri rheolau'ch cyfnod prawf

Gallech fynd yn ôl i'r llys os byddwch chi'n torri unrhyw rai o reolau eich cyfnod prawf. Er enghraifft os byddwch chi'n:

- gwneud rhywbeth y mae eich dedfryd yn eich gwahardd chi rhag ei wneud
- cyflawni trosedd arall
- colli cyfarfodydd ac apwyntiadau heb reswm da
- ymddwyn mewn ffordd ymosodol, hiliol neu unrhyw ffordd arall annerbyniol mewn cyfarfod neu apwyntiad

Gallwch gael eich anfon yn ôl i'r carchar os byddwch chi'n torri unrhyw reolau pan fyddwch chi wedi cael eich rhyddhau ar drwydded neu ar barôl.

## Cael eich anfon yn ôl i'r carchar

Mae'n bosib eich anfon yn syth yn ôl i'r carchar os ydych chi wedi cael eich rhyddhau ar drwydded neu ar barôl ac wedi torri unrhyw reolau. Gelwir hyn yn 'galw'n ôl'. Byddwch yn cael gwybod pam eich bod yn cael eich galw'n ôl.

Mae dau fath o alw'n ôl.

## Galw'n ôl am gyfnod penodol

Gyda galw'n ôl am gyfnod penodol, byddwch yn mynd yn ôl i'r carchar, yn cael eich rhyddhau am gyfnod prawf eto ar ôl 28 diwrnod, a byddwch ar drwydded tan ddiwedd eich dedfryd.

Dim ond carcharorion dedfryd benodol nad ydynt yn peri risg o niwed i'r cyhoedd all gael eu galw'n ôl am gyfnod penodol.

## Galw'n ôl arferol

Gyda galw'n ôl arferol, byddwch yn aros yn y carchar tan ddiwedd eich dedfryd, oni bai fod Bwrdd Parôl neu'r Llywodraeth yn penderfynu fel arall. Bydd eich achos yn cael ei anfon yn awtomatig at Fwrdd Parôl ar ôl 28 diwrnod. Os bydd yn penderfynu eich rhyddhau chi, bydd hynny un ai'n digwydd yn syth neu ar ddyddiad penodol (o fewn blwyddyn) pan fyddwch yn cael eich rhyddhau ar drwydded.

Os bydd yn penderfynu peidio â'ch rhyddhau chi, bydd eich achos yn cael ei adolygu bob blwyddyn, tan ddiwedd eich dedfryd, pan fyddwch chi'n cael eich rhyddhau'n awtomatig.